# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Tachwedd

2024

Amser: 09.00 - 09.25

# Cyfarfod o bell/ Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd. Y Dirprwy Lywydd oedd yn cadeirio'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2024**

- Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 (5 munud)
- Dadl: Yr Holodomor (60 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 27 Tachwedd 2024 -**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Banc Datblygu Cymru (60 Munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon: Amgueddfa Cymru 2021-22 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru) at y Pwyllgor Cyllid er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol, ac ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith craffu, a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch terfynau amser adrodd ar gyfer memoranda cydsyniad deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i ymestyn y terfynau amser adrodd ar gyfer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol canlynol tan 10 Ionawr 2025:

- Bil Ynni Prydain Fawr

- Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)
- Bil Hawliau Rhentwyr
- Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Bu'r Pwyllgor Busnes hefyd yn trafod gwerth pennu terfynau amser cychwynnol ar gyfer adrodd ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol i gyd-fynd â'r dyddiad craffu terfynol tebygol yn Nhŷ cyntaf Senedd y DU y cyflwynir y Bil perthnasol iddo, fel y cynigir gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai swyddogion y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach pa mor ymarferol yw mabwysiadu'r dull hwn.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gofyn am Ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor Cyllid i Ddatganiad Cadeirydd Pwyllgor gael ei drefnu yn y Cyfarfod Llawn i adrodd yn ôl ar *Adolygiad y Pwyllgor o'r gweithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*. Roedd y Rheolwyr Busnes o'r farn y byddai dadl yn fwy priodol a chytunwyd i ymateb i'r Pwyllgor Cyllid i ofyn iddo ystyried amserlennu dadl yn hytrach.

## 6 Trefniadau Cyflwyno

### 6.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Nadolig

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau arfaethedig ar gyfer

- gosod dogfennau yn ystod cyfnod y Nadolig;
- cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn yn ystod wythnos gyntaf y tymor; a

- chyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig yn ystod toriad y Nadolig.